

YMWELIADAU SAFLE CYNLLUNIO

Cofnodion y Cyfarfod Rhithiol a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2022

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Neville Evans – Cadeirydd
Cynghorydd Glyn Haynes – Is-gadeirydd
- Cynghorwyr Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Alwen Watkin, Liz Wood.
- Cynghorydd Nicola Roberts – Aelod Portffolio Cynllunio.
- WRTH LAW:** Rheolwr Datblygu Cynllunio (RLJ),
Arweinydd Tîm – Cynllunio (cais 1) (GJ),
Uwch Swyddog Cynllunio (cais 3) (JR),
Swyddog Cynllunio (cais 2) (HR),
Peiriannydd Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (IH),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Geraint Bebb.
- HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Aled M Jones (Aelod Lleol – cais 3)
- Aelod Lleol : Cynghorwyr Carwyn Jones ac Alun Roberts (cais 2)

1 FPL/2021/370 - - CAIS LLAWN AR GYFER NEWIDIADAU I GANIATÂD CYNLLUNIO RHIF FPL/2019/212(NEWID DEFNYDD YR ADEILAD ALLANOL YN LLETY GWYLIAU, YN CHWARELAU, BRYNSIENCYN.

Cafodd fideo o safle'r cais a'r ffordd tuag at y safle ei dangos i'r Aelodau ynghyd â chynllun safle a'r man pasio ôl-weithredol.

2 HHP/2021/303 -CAIS LLAWN I DDYMCHWEL YSTAFELL ARDD BRESENNOL YNGHYD Â CHODI SWYDDFA GARTREF/CAMPFA YN EI LE YN PANT Y BWLCH, LLANDDONA.

Cafodd fideo o leoliad yr ystafell ardd bresennol ei dangos i'r Aelodau, ynghyd â'r eiddo a lleoliad y safle.

3 FPL/2021/61 - FPL/2021/61 - CAIS LLAWN AR GYFER NEWID DEFNYDD ADEILAD ALLANOL I 2 UNED GWYLIAU, NEWID DEFNYDD MODURDY DWBL AR WAHÂN I ANECS YNGHYD A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG YN TYDDYN DAI, PENTREFELIN, AMLWCH.

Cafodd fideo o safle'r cais a'r ffordd tuag at y safle ei dangos i Aelodau a dangoswyd yr eiddo cyfagos i'r safle. Gwelodd yr Aelodau yr adeiladau allanol y mae bwriad i'w trosi a oedd wedi eu lleoli ar y safle. Cafodd waliau'r terfyn, y coed a'r llwyni yr argymhellir eu lleihau mewn maint hefyd eu dangos i Aelodau.

**Y CYNGHORYDD NEVILLE EVANS
CADEIRYDD**